**EISTEDDFOD GADEIRIOL PENRHYN-COCH 2016**

**Cerdd y gadair hyd at 50 llinell Testun : Taith**

Derbyniais 21 o gerddi, ac mae'r Pwyllgor i'w canmol yn fawr iawn am ddenu cymaint o gystadleuwyr. Rwyf wedi eu gosod mewn dau ddosbarth (nid am fod y rhai yn yr ail ddosbarth yn sâl ond am fod y saith cerdd sydd ar y blaen yn apelio mwy i mi)

Yn yr ail ddosbarth mae (ond nid mewn unrhyw drefn) :

**CEIDWAD Y PEUNOD**

Cerdd yn y wers rydd sydd yma. Ceir disgrifiadau lliwgar o'r ceiliog paen.

"Cynnwrf sbrigyn aderyn

Ar ben y domen tail,

Meinaps wrthi yn prysur dorsythu

A'i gynffon r'un ffurf â bwa'r enfys,

Cyn iddo fynd ati i ostwng ei ben."

Gwyliwch ambell dreiglad.

Hoffais y gerdd yma yn fawr ond mae yna gerddi eraill sydd yn apelio mwy i mi yn y gystadleuaeth.

**NABLA**

Cerdd yn y wers rydd yn mynd a ni ar daith 'Refferendwm' yr Alban. Mae hon yn gerdd hawdd ei darllen, ond teimlaf ei bod ychydig yn fyr i'w chymharu ag eraill yn y gystadleuaeth.

**SHIANI? Telpyn o gariad ydi hi**

Cerdd yn y wers rydd wedi ei gosod yn ddiddorol ond teimlwn fod y 'Daith' ychydig yn niwlog. Ychydig o drafferth gydag ambell i dreiglad, ond cerdd ddiddorol.

**CLETWR**

Cerdd yn y wers rydd yn mynd a ni ar daith gŵr mewn gwth o oedran, a fu ar gyffuriau ond sydd bellach yn drempyn. Mae yma ddarlun da o daith hen ŵr e.e.

"Ac wedi ei ddal ar ei fola dan frigau'r coed,

Yn ei dros nos o wely benthyg deiliog,

Drempyn â'i drwyn ynghlwm wrth botel meths."

Mae hon eto yn gerdd a hawliodd fy sylw a chefais fwynhad o'i darllen.

**HAFOD**

Cerdd wyth pennill, chwech llinell. Yr awdur wedi mynd i'r Llyfrgell Genedlaethol i gasglu achau'r teulu. Cawn daith yn olrhain y teulu o Wrecsam a Choedpoeth ac ardal Aberystwyth. Teimlwn nad oedd pob pennill yn gorffwys yn naturiol, ac roedd peth gwendid yn y pennill clo. Mwynheais ei darllen.

**IRFON**

Cerdd naw pennill, pedair llinell. Taith y ffoaduriaid yn dianc geir yma. Dechrau da

"Gwelaf filoedd ar y llwybrau

Gyda deigryn ar eu grudd,

Yno'n ffoi o'i gorthrymderau

Gadael mamwlad oll yn brudd."

Un peth bach – Aylan oedd enw'r bachgen bach a foddodd ac nid Aylian.

Cerdd dda a ddaeth a realaeth bywyd y ffoaduriaid yn fwy imi.

**GWRGWYR MAWRTH 2016**

Cerdd chwe phennill, pedair llinell. Mae yma ddefnydd o iaith dda, ond ceir peth anhawster gyda'r treiglo

e.e. … dir gwyllt, cyfarwydd nid gyfarwydd

… llai dryslyd nid llai ddryslyd

O beidio talu nid O beidio dalu …

**MYFANWY**

Cerdd un ar ddeg pennill, pedair llinell yn sôn am fynd ar daith yn y Gwanwyn yng nghefn gwlad. Cerdd hyfryd sydd yn dangos ysblander y Gwanwyn, ond teimlwn nad yw pob llinell yn disgyn yn gwbl naturiol –

e.e "Wrth i ti eto deithio .."

Ceir hefyd ddiffyg treiglo, a theimlaf fod ambell i odl ddim yn gwbl naturiol. Cerdd hyfryd er hynny.

**HAFAN**

Cerdd deg pennill, pedair llinell mewn mydr ac odl. Cerdd yw hon yn sôn am y bardd yn mynd ar daith, ac yn sylwi fod tiroedd ei gynefin yn mynd ar werth.

"Daw pryder mawr i'm calon

Wrth deithio'r llwybrau serth,

Bod tiroedd fy nghynefin

Bob dydd yn dod ar werth."

Sonia hefyd fel y mae'r estroniaid yn prynu tai a thiroedd a'r newid sydd i 'w weld yng nghefn gwlad oherwydd hyn. Cerdd ddiddorol a chefais fwynhad o'i darllen.

**MALI**

Cerdd mewn mydr gydag ambell odl sydd yma yn edrych ar daith bywyd. Gwendid y gerdd ydyw fod ambell i dreiglad yn chwithig, ac mai un bennill, 32 llinell ydyw.

Llinell 15 Credaf mai –

"Daeth hiraeth am ryddid i'm mynwes." fuasai orau ac nid,

"Roedd hiraeth am ryddid i'm mynwes."

Hoffais y pedair llinell olaf yn fawr, ond oherwydd gosodiad y gerdd nid oedd yn hawdd canolbwyntio arni.

**PARC Y RHOS**

Cerdd yn y wers rydd yn sôn am daith 'Y Datganoli – yr ymdrech i gael, ' Y Ddeddf Uno o'r unfed ganrif ar bymtheg, 1979. 1997' Mae hon yn gerdd dda ond rywsut ni apeliodd fel y gwnaeth eraill yn y gystadleuaeth.

**HIRAETHUS**

Deuddeg pennill, pedair llinell sydd yn y gerdd yma. Ar ddechrau'r daith mae'r bardd yn dwyn atgofion o'r amser a fu, ac mae'r penillion olaf yn dod â ni i'r presennol sydd yn dangos fel mae tro ar fyd wedi bod. Hoffais y bumed pennill

"Roedd clip di clop y ceffyl
Yn atsain drwy y fro.
Mor fyw yr ydynt heddi
Ar gynfas llwyd y co'."

Ond nid oeddwn yn or-hoff o'r ail bennill. Diweddglo trist wrth feddwl fod taith bywyd pawb rhyw ddydd yn dod i ben. Mwynheais ei darllen.

**FFODUS**

Cerdd gaeth mewn mydr ac odl gyda'r gynghanedd yn cael ei pharchu yw hon. Taith y mewnfudwyr o wahanol rannau o'r byd yn chwilio am fywyd gwell geir yma.

"eu llanw'n croesi'r llinell
o fyd gwael i fywyd gwell."

Hoffais – "Hadau'r un tylwyth ydym."

ond nid wyf yn siwr a ydwyf yn cytuno gyda'r bardd yn y pennill yma. Cerdd sydd yn gwneud inni feddwl yn ddwys yw hon. Rhoddodd fwynhad imi.

**O’R DIWEDD**

Cerdd yn y wers rydd sydd yma. Hoffais y llinellau

“ Yma,

ymhell o’i gynefin y gorwedd,

fel gwcw mewn nyth dieithr

a’r pridd mewn poen o hiraeth.”

Teimlaf nad yw cynnwys y gerdd yn dod drosodd yn hollol glir i mi. Er hynny mae iddi rannau da.

***************************************

Yn y dosbarth cyntaf mae saith cerdd. Dyma air byr am bob un – eto nid mewn trefn teilyngdod.

**CEMAIS**

Cerdd yn y wers rydd yn dilyn taith Dafydd ap Gwilym sydd yma. Cefais fwynhad o ddarllen y gerdd hon, ac mae wedi ei gosod yn dda. Diolch am yr eglurhad. Er hynny, mae yna ambell ran yn dywyll. Hefyd mae ambell i dreiglad yn annaturiol i’r glust

e.e. “ Paid marw fan hyn Ddafydd.” (Dafydd)

“Hyfrydwch arogleuon gwalltiau Ddyddgu a Morfudd.” (Dyddgu)

Cerdd dda er hynny.

**GWAWR**

Cerdd am daith - Malala Yousafzai y ferch a gododd ei llais dros addysg ac a gafodd ei saethu gan Y Taliban. Hefyd hi oedd y ferch ieuengaf i ddebyn y Nobel Prize yn 2014. Mae hon yn gerdd gaeth ac fe gefais fwynhad mawr o’i darllen.

**BOW TEI**

Cerdd yn y wers rydd am hanes taith y ‘Monarch Butterfly’ sydd yn hedfan bob Hydref o Ganada i Fecsico (un o wyrthiau natur). Hoffais y gerdd hon yn fawr a cheir disgrifiadau lliwgar o’r Glòyn Byw ynddi

“Pob glòyn

fel bow tei bregus ar wddf yr awel”

Cerdd a'm plesiodd.

**ARLYN**

Cerdd bwerus yn mynd a ni yn ôl i’r flwyddyn 2010, am ddamwain mewn pwll copr yn San Jose, Chile, ac am y daith i achub tri deg tri o’r gweithwyr.

“gwelais lwybr

yn nadreddu’n igam-ogam

i ddyfnder tywyllwch

y pwll dudew tanddaearol

at y tri deg tri caeth.”

Ar y diwedd daw y gerdd a ni i deithiau ein bywydau ninnau ac mae’n cloi drwy gofio am Iesu Grist yn marw ar y groes yn dri deg tri mlwydd oed.

Mae hon yn gerdd a ddaliodd fy sylw.

**<u>CRWYDRYN</u>**

Cerdd gaeth am daith a drefnwyd ar gyfer - Cerddwyr Teifi. Mae’r gerdd yma yn llwyddo i fynd a ni ar daith ar hyd glannau’r Teifi. Mae amrywiaeth o fesurau yma

e.e. Englyn Milwr, Hir a thoddaid

Cerdd dda iawn ac a'm plesiodd.

Credaf bod y ddwy gerdd sydd ar ôl, wedi cael eu hysgrifennu gan yr un bardd. Casgliad o englynion sydd yma – Englynion unodl union, Englynion Milwr ac Englynion Penfyr.

**<u>TIM PEAKE</u>**

Yn y gerdd hon mae y bardd wedi mynd a ni ar daith i’r gofod. Mae hon yn gerdd arbennig iawn ac mae’r gynghanedd yn cael y sylw priodol. Ceir darlun byw o’r daith

“ O’u daear aeth y dewrion – yno’n frwd

Yn fry i’r entrychion,

Lan tu hwnt i’r blaned hon

I ofod â’u harbrofion.”

Cerdd o safon uchel.

**<u>96</u>**

Cerdd am daith olaf naw deg chwech o gefnogwyr tîm pêl-droed Lerpwl, a laddwyd yn stadiwm Hillsbrough. Hon oedd eu taith olaf ond i’w perthnasau mae’r daith tuag at gyfiawnder yn parhau. Mae hon eto yn gerdd arbennig iawn ac yn hawlio sylw y darllenydd. Hoffais yr Englyn Milwr yma,

“Esgyrn yn cael eu gwasgu

Ac angau yn donnau du

Yno’n eu hamgylchynu.”

A’r englyn yma yn dangos llwyddiant yn y llysoedd heddiw,

“Heddiw ‘rôl hir flynyddoedd – yn weddus
Daeth llwyddiant o’r llysoedd,
Pob teulu’n blasu eu bloedd
O archoll yr ymgyrchoedd.”

Cerdd arbennig ac amserol.

Llongyfarchiadau i bob ymgeisydd a diolch iddynt am gystadlu.

Wedi hir bendroni, a darllen a darllen, yr un a apeliodd fwyaf i mi yw 96.

Felly enillydd cadair Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch 2016 yw 96.

**Esyllt Tudur Adair**